

Cyngor Cymuned Llanelian (309)

Cofnodion cyfarfod Mawrth 12, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, John Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Helen Hughes, Glenys Jones, Hefina Williams

Ymddiheuriadau: Dafydd Griffiths, Cyng. Richard Jones, Cyng. Aled Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.

2 Datgan Diddordeb

Carol Whitaker a Gordon Hayes – cais y clwb ieuenctid am gymorth ariannol, y ddau ohonynt ynghlwm a'r clwb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Carol Whitaker, eilio Hefina Williams.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Caniatad Arbennig – Daw cadarnhad gan CSYM bod caniatad wedi ei roi i bawb oedd wedi cyflwyno cais. Bydd posib i'r aelodau hynnu gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynglyn a dyfodol darpariaeth addysg yr ardal.

4.2 Materion Priffyrdd – cafwyd ebost gan Aled Jones yn cadarnhau bod yr hen ffordd ar gyffordd Mari Currie yn parhau yn ran o'r rwydwaith ffyrdd ac o dan gyfrifoldeb yr adran briffyrdd. Cadarnhawyd bydd cyfarfod i'w gynnal gyda Alun Roberts (swyddog priffyrdd) am 3 o'r gloch pnavn Mercher Mawrth 20 yn y Neuadd. Cytuno mai'r materion i'w trafod yw gwaharddiadau cyflymder ar Ffordd y Rhald, arwyddion ger yr ysgol, draen ger Tai Mwd, draen ar y bont ar y ffordd osgoi, cyflwr y lon yn gyffredinol. Nodwyd bod peth dwr yn casglu ar wyneb y ffordd yn y pentref yn ddiweddar.

4.3 Blwch Post – Dim diweddariad.

4.4 Darpariaeth Addysg – Dim diweddariad pellach (gweler caniatad arbennig uchod).

4.5 Stad Dublin – deallwyd bod y tai i gyd ond un wedi eu gosod erbyn hyn. Nodwyd siom yr aelodau nad oeddent wedi cael bod yn rhan o'r broses gosod. Cytuno cysylltu a Grwp Cynefin i gadarnhau pwy sydd wedi cael ty yn y datblygiad.

CT

4.6 Hyfforddiant – cafwyd adroddiad gan Ian Evans yn dilyn sesiwn hyfforddiant bu arno yn ddiweddar. Mae disgwyl bydd mwy o hyfforddiant ar gael yn y dyfodol wrth i bwyslais gael ei roi ar gynghorwyr i fynychu

4.7 Blwch Ffôn – nid oes ymateb gan CSYM na BT. Nododd Ian Evans ei fod wedi ymweld a'r blwch a'i fod mewn cyflwr gwael iawn a bod arwydd arno ers mis Rhagfyr 2018 yn nodi bod BT yn bwriadu cael gwared ohono. Trafodwyd yr angen i gael arwydd ger y llithrfa yn dangos rhifau ffon mewn argyfwng. Cytuno trafod eto unwaith

CT

bydd cadarnhad os oes posib defnyddio ffon symudol ar y traeth i alw gwasanaethau brys.

- 4.8 Baw Ci** – trafodwyd y cynllun am flychau bagiau baw ci, cytuno archebu tri blwch am gost o £27.50. Bydd CSYM yn darparu'r bagiau am y flwyddyn gyntaf gyda'r gost wedyn yn disgyn ar y cyngor cymuned. Cytuno gosod un blwch ger yr ysgol (ger y bin baw ci), un blwch ger y siop (bin cyffredinol), un blwch ger y llwybr cerdded/beic ger y gyffordd a'r A5025 (bin cyffredinol). Cytuno gofyn i CSYM symud y bin ger y blwch ffon yn y pentref i Bengorffwysfa (ger y safle bws/blwch post). CT

5 Adroddiadau Pwyllgorau

- 5.1 Caeau Chwarae** – nodwyd bod adroddiadau diweddaraf wedi eu derbyn erbyn hyn yn dilyn arolygon y caeau chwarae. Nid oedd unrhyw beth angen sylw brys. Fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu a Magnox i gael diweddariad am y grant tuag at meinciau newydd. CT

- 5.2 Llithrfa** – nodwyd bod angen arwyddion newydd ger y llithrfa yn dangos y bae a'r rheolau/deddfau. Byddai yn fanteisiol arddangos rhifau argyfwng hefyd (gweler blwch ffôn uchod). Y clerc i wneud ymholiadau gyda CSYM. CT

- 5.3 Mynwent** – mae disgwyl diweddariad gan Huw Roberts ynglyn a'r gwaith diogelwch yn dilyn ei asesiad o'r fynwent. Cafwyd wybod bod angen cwblhau mwy o ffurflenni ar gyfer yr adran gynllunio cyn symud ymlaen a'r giat newydd. Y clerc i gysylltu a'r ymgynghorwr cynllunio oedd wedi cyflwyno'r cais ar ran y cyngor. CT

- 5.4 Cyllid a Pholisi** – dim diweddariad

5.5 Pwyllgorau Allannol –

Cafwyd wybod gan Dafydd Griffiths bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon ar hyn o bryd yn ceisio dod a'r wybodaeth ynglyn a Wylfa Newydd at ei gilydd fel bod popeth yn ei le os bydd y prosiect yn ail ddechrau yn y dyfodol agos.

6 Cynllunio

- 6.1 Ceisiadau** – Roedd dau cais i'w ystyried:

- (VAR/2019/17) Maes Teg – cytuno cefnogi'r cais ar yr amod bod y portacabin yn cael ei symud yn unol a'r cais.
- (HHP/2019/55) 14 Penysarn Fawr - cefnogi'r cais

- 6.2 Penderfyniadau** – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM.

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£93.44 M Owen (Arolygon Cae Chwarae)
£286.07 Carli Evans Thau (Cyflog)

7.2 Ceisiadau am Arian

Bu tri cais i'w ystyried: Nodwyd bod £150 ar ol yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. CT

- Urdd, Cangen Mon – cytuno peidio a chefnogi y tro hwn.
- Radio Cymunedol Mon FM – cytuno cyfranu £50 tuag at gostau cynnal
- Clwb Ieuenctid Penysarn – cytuno cyfranu £200 tuag at y prosiect; £100 eleni (2018/19) a £100 o gyllideb y flwyddyn ariannol nesaf (2019/20). Ni fu Carol Whitaker a Gordon Hayes yn rhan o'r drafodaeth.

- 7.3 Archwiliad**
Cytuno penodi Alun Foulkes yn archwiliwr mewnol y Cyngor 2018/19 ar gost o £100. CT
- Nodwyd na fyddai BDO yn cwblhau'r archwiliad allannol o 2020 ymlaen. Yn hytrach bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cwblhau'r gwaith eu hunain.
- 8 Cronfa Tŷ Moel Isaf**
Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi siarad ag adran gyfreithiol CSYM. Teimlwyd byddai pwyllgor penodol gyda rheolau gorchwyl a chyfrif banc ar wahan i gyllid pob dydd y cyngor yn ddigonol ar gyfer rheoli arian TMI. Mae'r arian wedi ei adael i'r cyngor cymuned (ac nid i ymddiriedolaeth annibynnol), ac felly byddai disgwyl i'r pwyllgor / cyngor adrodd yn ol ar wariant. Mae'r clerc wedi gofyn i'r adran gyfreithiol wneud ymholiadau os oes unrhyw gyngor arall ym Mon wedi derbyn arian mewn ffordd tebyg, ac os oes, sut maent yn rheoli'r fath arian. Cytuno disgwyl am ymateb pellach a datblygu rheolau gorchwyl ar gyfer pwyllgor or fath. CT
- 9 Iechyd a Diogelwch**
Pryderon diogelwch ffordd yn parhau (gweler materion yn codi o'r cofnodion). Nodwyd bod gamddfa Porth Gwichiad wedi ei drwsio erbyn hyn.
- 10 Wylfa Newydd**
Cafwyd gadarnhad swyddogol gan yr arolygaeth gynllunio bod y Grid Cenedlaethol wedi tynnu eu cais cynllunio yn ol.
- Cafwyd ebost ynglyn a datblygu safle gwaredu gwastraff tanddaearol posib yng Nghymru. Cytuno cadw golwg ar y sefyllfa, ac y byddai aelodau yn ymateb fel unigolion os oeddent am wneud hynnu.
- 11 Gohebiaeth**
- 11.1** Cytuno ymaelod i ag Un Llais Cymru am flwyddyn arall ar gost o £193.00 CT
- 11.2** Cytuno byddai Dafydd Griffiths a John Griffiths yn cynrychioli'r cyngor ar Grwp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (MagnaX). CT
- 11.3** Cafwyd wybodaeth am Noson Elusennol y Cadeirydd (Sirol) yn Llangefni.
- 11.4** Cefnogi mewn egwyddor ymgyrch i ddiogelu gwasanaethau yn Ysbyty Gwynedd. CT
- 11.5** Ymgynghoriad ar ganllawiau cynllunio ychwanegol – mae angen ymateb erbyn 4/4 os am wneud hynnu.
- 12 Unrhyw Fater Arall**
- 12.1** Cafwyd wybod bod rhaglen Byd ar Bedwar wedi ei seilio ar deulu o'r pentref i'w darlledu heno yn amlinellu digwyddiadau trist diweddar.
- 12.2** Cafwyd wybod bod yr heddlu lleol yn sgwrsio a phlant a phobl ifanc yn dilyn peth difrod ar safle Octel yn Amlwch yn ddiweddar.
- 12.3** Gofynnwyd os oedd unrhyw ddiweddariad am safle'r Bedol gan fod gwahanol straeon i'w cael yn y pentref am ddyfodol y safle. Deallwyd bod y safle wedi ei werthu.
- 12.4** TDJ

Nodwyd bod cerbydau wedi eu gadael ym Mhengorffwysfa eto. Thomas Jones i gael y manylion i'r clerch i wirio gyda'r heddlu.

13 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Ebrill 5, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu i Ian Evans ymddiheuro na fyddai yng ngyfarfod mis Ebrill.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd

CET03/2019